# POLISI RHEOLAETHAU PARCIO I BRESWYLWYR

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Bydd yr holl gynlluniau newydd sy'n ymwneud â pharcio i breswylwyr yn dod o dan delerau ac amodau'r polisi hwn sydd â'r nod o roi blaenoriaeth briodol i breswylwyr i barcio dros gymudwyr ac ymwelwyr mewn ardaloedd lle mae galw mawr am barcio.

1.2 Bydd y Cyngor yn ystyried Rheolaethau Parcio i Breswylwyr priodol yn unol â'r amgylchiadau a'r meini prawf penodol a nodir yn y ddogfen hon. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio dau fath o reolaeth sy'n cynnwys naill ai 'Ardaloedd Parcio â Thrwydded' neu 'Mannau Parcio â Thrwydded' fel y nodir ac a esbonnir yn yr adrannau perthnasol isod.

1.3 Bydd y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, yn dehongli'r amgylchiadau penodol ym mhob stryd neu ardal gan ddilyn, pan fo angen, arolygon priodol neu adolygiadau o ddata a thystiolaeth arall sydd ar gael i bennu'r Rheolaethau Parcio i Breswylwyr mwyaf priodol i'w hystyried.

1.4 Diben y briffordd yw hwyluso symud i bobl a thraffig ac felly nid oes gan unrhyw gerbyd hawl awtomatig i barcio ar briffordd gyhoeddus. Fodd bynnag, pan fo effaith sylweddol ar rai strydoedd gan bobl ddibreswyl fel siopwyr, cymudwyr neu ymwelwyr â chyfleusterau/amwynderau yn parcio arnynt, yna weithiau gall fod yn syniad da cyflwyno Rheolaethau Parcio i Breswylwyr, er mwyn rhoi blaenoriaeth benodol i breswylwyr, fel y nodir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw Rheolaethau Parcio i Breswylwyr yn gwarantu lle y tu allan i breswylfa neu y bydd mannau parcio ar gael ar y stryd.

1.5 Mae defnyddio Rheolaethau Parcio i Breswylwyr yn cyflwyno dull o gyfyngu parcio mewn ardal neu stryd drwy gyfrwng 'Gorchymyn Rheoleiddio Traffig' cyfreithiol wrth alluogi preswylwyr, yn bennaf, ond hefyd ymwelwyr â nhw, barcio gan ddefnyddio trwyddedau preswylwyr. Gall hyn helpu i fynd i'r afael â phryderon y gymuned o ran nifer y mannau parcio i breswylwyr sydd ar gael drwy atal a/neu gyfyngu ar barcio gan gymudwyr a phobl ddibreswyl, gan roi gwell cyfle i breswylwyr barcio'n agos i'r man lle maent yn byw.

1.6 Mae Rheolaethau Parcio i Breswylwyr hefyd yn ffordd effeithiol o annog a gwneud gwell defnydd o gyfleusterau mwy priodol oddi ar y stryd, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, a phan gânt eu defnyddio ar y cyd â rheolaethau eraill

gall hefyd helpu i atal tagfeydd, lleihau peryglon diogelwch ac atal rhwystro mynediad i gerbydau brys neu fynediad i eiddo.

1.7 Ni fydd y Cyngor yn rhoi cyfyngiadau parcio ar waith mewn ardaloedd preswyl cyfan (fel llinellau melyn dwbl, llinellau melyn sengl neu ddim llwytho ar unrhyw adeg), oni ystyrir bod cyfyngiadau o'r fath yn angenrheidiol i ddatrys problemau sylweddol o ran diogelwch ar y ffyrdd neu oedi traffig a/neu dagfeydd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cyfyngiadau o'r fath i ategu Rheolaethau Parcio i Breswylwyr penodol.

1.8 Pan fo mynediad i eiddo yn cael ei rwystro'n rheolaidd gan gerbydau wedi'u parcio, dylai preswylwyr ystyried gwneud cais am Ddiogelu Mynediad neu Farciau Bar H, y mae eu manylion ar gael ar wefan y Cyngor.

1.9 Ar hyn o bryd, ni chodir tâl am Drwyddedau Parcio i Breswylwyr sy'n gysylltiedig ag unrhyw fath o fesurau Rheoli Parcio i Breswylwyr. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adolygu a chynnig codi costau rhesymol i dalu am gostau gorfodi a gweithredu cynlluniau o'r fath yn y dyfodol drwy broses ymgynghori briodol.

1.20 Yn gyffredinol, ni fyddai Rheolaethau Parcio i Breswylwyr yn cynnwys datblygiadau newydd gan y byddai disgwyl iddyn nhw ddarparu cyfleusterau parcio addas ar y safle. Ni fydd Rheolaethau Parcio Preswylwyr yn cael eu hystyried ychwaith pan fo lleoedd parcio ar y stryd yn cael eu llenwi gan bobl ddibreswyl yn parcio am gyfnodau byr, e.e. pobl yn mynd i siopau lleol, rhieni'n gollwng plant yn yr ysgol, ymwelwyr â meddygon teulu, ymwelwyr â chanolfannau cymunedol/ffydd. Gellir ystyried rheolaethau parcio eraill pan fo angen i fynd i'r afael â diogelwch y briffordd a thagfeydd.

1.21 Ym mhob achos, ni fydd strydoedd y gwneir cais am gyfleusterau parcio i breswylwyr arnynt yn destun cynllun datblygu oni bai bod cyllid ar gael i roi mesurau ar waith, petai’r stryd honno’n gymwys. Bydd ceisiadau am Reolaethau Parcio i Breswylwyr yn cael eu cadw ar ffeil i'w hasesu a'u hystyried yn flynyddol i benderfynu ar eu blaenoriaeth yn seiliedig ar asesiad ac adolygiad cychwynnol. Pan fo’n briodol, gall hyn gynnwys cynnal arolygon parcio ffurfiol neu anffurfiol ar adegau priodol i gasglu tystiolaeth angenrheidiol bod problem o ran lle parcio.

1.22 Bydd rhestr fer o gynlluniau addas yr ystyrir eu bod yn ddymunol ac yn ymarferol mewn unrhyw flwyddyn ariannol unigol yn cael ei llunio yn nhrefn blaenoriaeth a'i chyflwyno i benderfynu yn ei chylch gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai mewn ymgynghoriad a’r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. Eir ymlaen a’r cynlluniau yn unol â'r meini prawf a nodir isod, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

1.23 Wrth lunio cynlluniau Rheolaethau Parcio i Breswylwyr a gymeradwyir bydd y Cyngor yn ystyried y canlynol:

- Oriau a diwrnodau gweithredu’r cynllun er mwyn i reoli’r lle parcio sydd ar gael yn effeithiol.
- Natur a chymeriad y ffordd neu'r stryd bresennol, gan gynnwys lled y ffordd a chyfyngiadau eraill.

- Darpariaethau parcio ar gyfer preswylwyr anabl.
- Llunio cyfyngiadau parcio ar gyfer ffyrdd/strydoedd yn eu cyfanrwydd.
- Sicrhau llif traffig diogel a gwelededd wrth gyffyrdd.
- Y defnydd a wneir o’r ardal, gan gynnwys gofynion o ran mynediad i fysus, busnesau, ysgolion ac eglwysi.
- Yr effaith bosibl ar y cyfleusterau parcio mewn ardaloedd/ffyrdd cyfagos o ganlyniad i gyflwyno’r cynllun parcio a reoleiddir.
- Diogelu’r cyhoedd.

1.24 Mae angen i bob cerbyd sydd wedi'i barcio mewn ardal Rheolaethau Parcio i Breswylwyr (ac eithrio cerbydau dosbarthu neu gontractwyr gwaith stryd) arddangos trwydded barcio ddilys i barcio'n gyfreithiol yn ystod oriau gweithredu'r cynllun. Petai’r Cyngor yn cyflwyno system adnabod platiau rhif cofrestru cerbydau awtomataidd (APRhA), yna rhif cofrestru'r cerbyd fyddai'r drwydded a dim ond trwyddedau i ymwelwyr fyddai’n ofynnol i'w harddangos ar gerbydau.

## 2.0 MEINI PRAWF AR GYFER ARDALOEDD PARCIO Â THRWYDDED I BRESWYLWYR

2.1 Pan fo’r Cyngor o'r farn bod achos penodol mewn ardaloedd yr effeithir arnynt yn fawr i neilltuo mannau parcio mewn ffordd neu gymdogaeth gyfan at ddefnydd deiliaid trwyddedau yn unig, bydd cynllun ar gyfer 'Ardal Parcio â Thrwydded' yn cael ei ystyried.

2.2 Penderfynir ar ardaloedd o'r fath yn ôl disgresiwn y Cyngor yn unig ar ôl ystyried amgylchiadau penodol ac, yn gyffredinol, byddant yn cynnwys strydoedd preswyl a datblygiadau tai ger atyniadau i ymwelwyr neu safleoedd cyflogaeth mawr a all arwain at lawer o bobl ddibreswyl yn parcio ar strydoedd lleol, gan gyfyngu’n sylweddol ar nifer y lleoedd parcio i breswylwyr sydd ar gael a pheri poendod iddynt. Mae enghreifftiau o ardaloedd o'r fath yn cynnwys, ymhlith eraill, y rhai a restrir isod:

- Ysbytai mawr mewn cymuned breswyl.
- Safleoedd diwydiannol a/neu ardaloedd menter.
- Ardaloedd twristiaeth a chyrchfannau sy'n denu nifer sylweddol a chyson o ymwelwyr .
- Parciau gwledig

2.3 Bydd defnyddio Ardaloedd Parcio â Thrwydded hefyd yn cael ei ystyried yn ddymunol pan fo costau parcio ceir neu addasiadau eraill ym meysydd parcio'r Cyngor yn gallu arwain at bobl yn parcio’u cerbydau mewn datblygiadau preswyl cyfagos. Mewn achosion o'r fath, gallai hyn ddiogelu mannau parcio i breswylwyr ac annog pobl i wneud defnydd effeithiol o'r cyfleusterau parcio oddi ar y stryd a ddarperir yn benodol ar gyfer ymwelwyr a thwristiaid.

2.4 Yn gyffredinol, cyfyngir y broses o roi Ardaloedd Parcio â Thrwydded ar waith i safleoedd datblygiadau preswyl pengaead neu fach i ganolig â phwyntiau mynediad cyfyngedig i gerbydau lle nad oes llawer o draffig fel arfer. Mae’n rhaid

rhoi Ardal Parcio â Thrwydded ar waith yn unol â'r gofynion a nodir yn Adran 13.10 Pennod 3 y Llawlyfr Arwyddion Traffig ar gyfer arwyddion rheoleiddiol.

2.5 Caiff ceisiadau am Ardal Parcio â Thrwydded eu hasesu yn seiliedig ar amodau parcio trwy gydol wythnos arferol. Er mwyn i gynllun gael ei ystyried, mae'n rhaid i lefel y parcio dibreswyl ar stryd mewn ardal breswyl oherwydd parcio sy'n deillio o atyniad i ymwelwyr neu safle cyflogaeth mawr olygu ei fod yn creu anghyfleustra cyson a gormodol i drigolion lleol ac yn achosi problemau o ran diogelwch y briffordd a thagfeydd. Pan na ellir dangos hyn, bydd y Cyngor yn ystyried defnyddio Mannau Parcio â Thrwydded fel y nodir yn Adran 3.0 isod fel dewis amgen.

2.6 Wrth ystyried unrhyw gynlluniau, mae angen dealltwriaeth glir o'r problemau parcio yn yr ardal a goblygiadau cyflwyno unrhyw Ardal Barcio newydd i Breswylwyr, yn enwedig o ran y posibilrwydd y bydd pobl oedd yn arfer parcio yn yr ardal honno yn parcio mewn lle arall. Bydd pob cynllun yn cael ei gyflwyno fesul ardal er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd drwy ddefnyddio lle dros ben mewn un stryd i ategu un arall. Dylai ffiniau ardaloedd fod yn rhesymegol, yn gryno ac yn hawdd eu diffinio.

2.7 Os yw gwerthusiad cychwynnol yn awgrymu bod atyniad i ymwelwyr neu safle cyflogaeth mawr yn achosi aflonyddwch ac anghyfleustra gormodol mewn cysylltiad â mannau parcio mewn ardaloedd preswyl, gall y Cyngor wneud gwaith arolygu fel yr ystyrir yn angenrheidiol i ddangos tystiolaeth o faint y niwsans cyn gwneud penderfyniad terfynol. Yn dilyn y gwaith hwn bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol ac ni fydd hawl i apelio.

2.7 Cyn bwrw ymlaen ag unrhyw Ardaloedd Parcio â Thrwydded, bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r holl breswylwyr yr effeithir arnynt yn yr ardal arfaethedig a bydd angen ymateb gan y mwyafrif o blaid cynllun o'r fath er mwyn iddo fynd yn ei flaen (gan gynnwys ymatebion "dim"). Os oes digon o gefnogaeth, yna bydd cynllun manwl yn cael ei gynllunio a chaiff preswylwyr eu hysbysu ohono.

2.8 Er mwyn gwneud defnydd llawn o'r mannau parcio sydd ar gael ar y stryd ac i weithredu'r cynllun yn effeithiol, caniateir i unrhyw ddeiliad trwydded mewn Ardaloedd Parcio â Thrwydded dynodedig barcio mewn unrhyw fan o fewn ffin ddiffiniedig yr Ardal.

2.9 Os bodlonir y meini prawf uchod, cynhelir ymgynghoriad ffurfiol wedyn yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol gan gynnwys 'Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984' a 'Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996' ac, os yw'n briodol, bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno.

## 3.0 <u>MEINI PRAWF AR GYFER ARDALOEDD PARCIO Â THRWYDDED I BRESWYLWYR</u>

3.1 Nod y cynlluniau parcio i breswylwyr yw neilltuo rhan o'r mannau parcio sydd ar gael ar unrhyw stryd ar gyfer preswylwyr a'u hymwelwyr yn unig, pan fo llawer o bobl ddibreswyl yn parcio ar y stryd, fel siopwyr, cymudwyr neu bobl sy'n ymweld

â chyfleusterau lleol. Mae Mannau Parcio â Thrwydded fel arfer yn cael eu gosod mor gyfartal â phosibl ar hyd y stryd ac i barcio mewn man parcio, byddai'n rhaid arddangos trwydded ddilys ar gerbyd. Yr eithriad i'r rheol i arddangos trwydded ym mhob achos fyddai pe bai system APRhA yn cael ei defnyddio.

3.2 Pan fo'n briodol, gall cynlluniau Mannau Parcio â Thrwydded gynnwys defnyddio mannau parcio 'a rennir' neu 'ddefnydd deuol' i sicrhau bod y ddarpariaeth parcio ar y stryd yn cael ei defnyddio'n effeithlon ar adegau addas yn ystod y dydd, pan fo prinder mannau parcio cyffredinol. Bydd trefniadau o'r fath yn cynnwys defnyddio man parcio ar y stryd am gyfnod cyfyngedig ynghyd â cherbydau â thrwyddedau preswylwyr.

3.3 Fel arfer, bydd y Cyngor yn ystyried ac yn gosod cynlluniau Mannau Parcio â Thrwydded yn unol â'r meini prawf gweithredol isod ond bydd yn ystyried ymgynghori ar opsiynau eraill ar gyfer diogelu nifer y mannau parcio sydd ar gael yn lleol er mwyn gwella cynlluniau pan fo amgylchiadau lleol yn dangos bod hyn yn angenrheidiol.

3.4 Bydd ceisiadau am fannau parcio i breswylwyr ac ymgorffori mannau parcio 'a rennir' neu 'ddefnydd deuol' yn cael eu hasesu yn seiliedig ar amodau parcio trwy gydol wythnos arferol. Er mwyn i gynllun fynd yn ei flaen, rhaid i'r lefel parcio gyfartalog yr arsylwir arni gyrraedd neu fod yn fwy na 75% o'r mannau parcio sydd ar gael a rhaid bod digon o le ar y stryd i gynllun fod yn ymarferol heb achosi problemau o ran mynediad na diogelwch.

3.5 Ar ôl derbyn cais am gynllun Mannau Parcio â Thrwydded ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael, gall Swyddogion gynnal gwerthusiad cychwynnol i weld a yw 75% o'r lleoedd parcio yn debygol o gael ei lenwi.

3.6 Os yw'r gwerthusiad cychwynnol yn awgrymu bod y maen prawf o 75% yn debygol o gael ei lenwi, bydd o leiaf 2 arolwg manwl pellach yn cael eu cynnal rhwng dydd Llun a dydd Sadwrn hyd at 6.00pm. Gan ddibynnu ar amgylchiadau a lleoliadau penodol, gellir cynnal arolygon ychwanegol yn ôl yr angen i werthuso nifer y mannau parcio sydd ar gael.

3.7 Os yw'r pwynt dirlawn wedi'i gyrraedd, bydd angen cadarnhau a oes cefnogaeth gyffredinol ymysg preswylwyr i gyflwyno cynllun parcio i breswylwyr. Bydd hyn ar ffurf ymgynghoriad â phreswylwyr a fydd yn cael dogfen ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth am fanteision ac anfanteision unrhyw gynllun.

3.8 Er mwyn bwrw ymlaen ag unrhyw gynllun parcio i breswylwyr, bydd llythyrau ymgynghori yn cael eu dosbarthu i bob preswylfa a fydd yn gofyn am ymatebion gan dros 60% o breswylwyr o blaid cynllun parcio i breswylwyr (gan gynnwys ymatebion 'dim'). Mae hyn er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r preswylwyr o blaid cyflwyno cynllun.

3.9 Pan fydd mannau parcio preswyl newydd yn cael eu creu, yn aml bydd angen cyflwyno cyfyngiadau parcio ar yr un pryd hefyd i ddiffinio darnau o'r ffordd lle nad yw'n ddiogel neu'n briodol i barcio. Yn aml bydd y cyfyngiadau ychwanegol hyn yn lleihau nifer y mannau parcio ar y stryd yr oedd trigolion yn gallu manteisio

arnynt yn flaenorol ac mae'n anfantais anochel o ganlyniad i gyflwyno cynlluniau parcio i breswylwyr.

3.10 Yn y rhan fwyaf o achosion, yr amseroedd gweithredol ar gyfer y cynllun trwyddedau parcio i breswylwyr yn gyffredinol fydd 8am i 6pm bob dydd oni bai bod nodweddion lleol yn mynnu fel arall ac yn cael eu cadarnhau gan dystiolaeth sylweddol o arolygon ychwanegol.

3.11 Fel arfer, bydd cynlluniau parcio newydd i breswylwyr yn neilltuo o leiaf 50% o'r mannau parcio sydd ar gael mewn unrhyw stryd (hyd at 75% mewn amgylchiadau y gellir eu cyfiawnhau, yn amodol ar amgylchiadau lleol a chanlyniadau arolwg) ar gyfer preswylwyr a'u hymwelwyr, gyda'r ganran o fannau sy'n weddill yn cael ei dyrannu i barcio dan amodau aros cyfyngedig, defnydd a rennir neu fannau parcio nas rheolir, fel y bo'n briodol.

3.12 Os oes digon o gefnogaeth gan breswylwyr y stryd ar gyfer cynllun mannau parcio â thrwyddedau i breswylwyr, bydd cynllun manwl yn cael ei lunio a chaiff preswylwyr eu hysbysu ohono.

3.13 Bydd cynlluniau newydd yn cael eu cyflwyno fesul stryd a dim ond preswylwyr o'r strydoedd y cyflwynir y cyfyngiadau newydd ynddynt fydd yn gymwys i wneud cais am drwyddedau parcio i breswylwyr.

3.14 Os bodlonir y meini prawf uchod, cynhelir ymgynghoriad ffurfiol yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol gan gynnwys 'Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984' a ‘Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996' ac, os yw'n briodol, y cynllun a gyflwynwyd.

## 4.0 <u>MATHAU O DRWYDDEDAU PARCIO I BRESWYLWYR A MEINI PRAWF I'W DEFNYDDIO</u>

4.1 Gall unrhyw un sy'n byw mewn cyfeiriad mewn ardal a gwmpesir gan Reolaethau Parcio i Breswylwyr wneud cais am drwydded parcio i breswylwyr ar gyfer cerbydau maent yn berchen arnynt ac sydd wedi’u cofrestru yn y cyfeiriad hwnnw ar yr amod mai eu prif breswylfa yw’r cyfeiriad hwnnw. Dylid defnyddio trwyddedau parcio i breswylwyr ar gyfer y cerbydau ac yn y strydoedd neu ardaloedd y’u rhoddwyd ar eu cyfer yn unig.

4.2 Gall preswylwyr wneud cais am un drwydded Ymwelwyr, p'un a oes cerbyd wedi'i gofrestru yn y cyfeiriad hwnnw ai peidio. Dim ond yng ngherbydau ymwelwyr go iawn ag eiddo y gellir defnyddio Trwyddedau Ymwelwyr. Ni ellir arddangos trwydded ymwelwyr ar gerbyd a ddefnyddir gan breswylwyr yr eiddo ac ni ellir ei defnyddio pan fydd y gyrrwr/ymwelydd wedi mynd i rywle arall.

4.3 Mae trwyddedau parcio preswylwyr yn drwyddedau blynyddol (1 Ebrill tan 31 Mawrth)

4.4 Bydd rhaid cyflwyno tystiolaeth o breswyliaeth er mwyn sicrhau mai dim ond preswylwyr go iawn sy'n gallu cael pob math o drwyddedau. Yn ogystal, ar gyfer

trwyddedau i breswylwyr, bydd angen rhif cofrestru'r cerbyd a thystiolaeth o berchnogaeth neu ddefnydd o'r cerbyd hefyd.

4.5 Ar gyfer ceisiadau ar-lein a drwy’r post, bydd angen dau o'r mathau canlynol o ddogfennaeth adnabod fel prawf preswyliad, ynghyd â phrawf o berchnogaeth cerbyd neu brydlesu cerbyd (copi o dystysgrif cofrestru V5C neu lythyr gan gwmni prydlesu), tystysgrif yswiriant modur (sy'n dangos rhif cofrestru ac enw’r cerbyd).

- Llyfr Rhent Swyddogol/Cytundeb Tenantiaeth. (Rhaid i hwn fod wedi’i lofnodi a'i ddyddio gan y landlord neu'r asiantaeth a’r tenantiaid. Rhaid iddo hefyd gynnwys enw'r ymgeisydd a chwmpasu’r cyfnod y mae angen y drwydded ar ei gyfer.)

- Cyfriflen Banc neu Gymdeithas Adeiladu (dyddiedig o fewn y tri mis diwethaf).

- Bil y Dreth Gyngor neu Gyfleustodau cyfredol sy’n cwmpasu’r cyfnod o 3 mis cyn gwneud y cais - nwy, trydan, dŵr neu ffôn symudol/llinell dir.

- Llythyr gan gyfreithiwr yn cadarnhau eich bod wedi prynu eiddo (dyddiedig yn ystod y tri mis diwethaf cyn y cais).

**Sylwer:** Gellir gofyn i chi ar unrhyw bryd gyflwyno dogfennau neu dystiolaeth ychwanegol i ategu’ch cais. Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i wrthod unrhywgais pan ystyrir nad yw cais wedi bodloni’r amodau sy’n orfodol.

4.6 Ar gyfer ceisiadau ar-lein, bydd modd defnyddio Rhif Cyfrif y Dreth Cyngor fel tystiolaeth o breswyliaeth. Ar gyfer ceisiadau drwy'r post neu geisiadau a wneir yn bersonol, bydd angen cyflwyno naill ai Rhif Cyfrif y Dreth Gyngor neu ddau o'r dulliau adnabod canlynol yn dystiolaeth o breswyliaeth, ynghyd â thystiolaeth o berchnogaeth cerbyd neu brydles hurio (copi o dystysgrif gofrestru V5C neu lythyr gan gwmni prydlesu).

- Llyfr Rhent Swyddogol/Cytundeb Tenantiaeth. (Rhaid i hyn fod wedi’i lofnodi a'i ddyddio gan y landlord neu'r asiantaeth a thenantiaid. Rhaid iddo hefyd gynnwys enw'r ymgeisydd a chwmpasu’r cyfnod y mae angen y drwydded ar ei gyfer.)
- Cyfriflen Banc neu Gymdeithas Adeiladu (dyddiedig o fewn y tri mis diwethaf).
- Bil y Dreth Gyngor neu Gyfleustodau cyfredol sy’n cwmpasu cyfnod o 3 mis cyn gwneud y cais - nwy, trydan, dŵr neu ffôn symudol/llinell dir.
- Llythyr gan gyfreithiwr yn cadarnhau eich bod wedi prynu eiddo (dyddiedig yn ystod y tri mis diwethaf cyn y cais).

**Sylwer:** Gellir gofyn i chi ar unrhyw bryd gyflwyno dogfennau neu dystiolaeth ychwanegol i ategu’ch cais. Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i wrthod unrhyw gais pan ystyrir nad yw cais wedi bodloni’r amodau sy’n orfodol

4.7 Gall deiliaid trwyddedau parcio i breswylwyr wneud cais i adnewyddu trwydded

hyd at 3 mis cyn y disgwylir iddi ddod i ben. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw adnewyddu ei drwyddedau cyn iddynt ddod i ben, gan alluogi digon o amser i gyflwyno trwydded newydd cyn y dyddiad hwnnw. Os yw'r drwydded eisoes wedi dod i ben, ni ellir ei hadnewyddu a rhaid gwneud cais am drwydded newydd. Gallai methu ag arddangos trwydded ddilys arwain at hysbysiad tâl cosb am dramgwydd parcio, na fydd yn cael ei ddiddymu.

4.8 Bydd unrhyw honiad am gamddefnyddio trwyddedau parcio i breswylwyr yn destun ymchwiliad ac, os yw'n briodol, gellir canslo neu dynnu trwyddedau oddi wrth y preswylydd neu'r breswylfa dan sylw.

4.9 Caiff trwyddedau coll eu newid unwaith, am ddim, ond codir ffi am gyflwyno unrhyw drwyddedau newydd wedi hyn.

4.10 Bydd deiliad y drwydded i breswylwyr yn rhoi gwybod i'r Cyngor am newid cerbyd a bydd rhaid gwneud cais am drwydded newydd. Rhaid dychwelyd yr hen drwydded i'r Cyngor i'w chanslo. Fodd bynnag, os na ellir dychwelyd y drwydded i'w chyfnewid, caiff ei hystyried yn drwydded a gollwyd.

4.11 Os nad oes angen trwydded mwyach, o ganlyniad i symud i eiddo newydd er enghraifft, yna rhaid ildio'r drwydded i'r Cyngor. Nid oes modd trosglwyddo trwyddedau o dan unrhyw amgylchiadau.

4.12 Ar gyfer cynlluniau Trwyddedau Parcio i Breswylwyr, gellir caniatáu i breswylwyr eiddo sydd ar gornel stryd ddewis p’un ai a yw eu trwyddedau ar gyfer stryd eu cyfeiriad post neu stryd gyfagos os yw prif fynedfa eiddo wedi'i leoli yno, ar yr amod bod y cynllun ar waith yn y stryd honno.

4.13 Ni chaniateir i landlordiaid na pherchenogion yr eiddo wneud cais am drwydded oni bai eu bod yn byw yn yr eiddo y gwneir y cais ar ei gyfer.

4.14 Mae trwyddedau parcio i breswylwyr yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor a gellir eu canslo neu eu diddymu ar unrhyw adeg. Os oes Swyddog Gorfodi Sifil yn gofyn am gael gweld eich trwydded parcio, mae’n rhaid i chi ei dangos iddo. Os yw'r Cyngor yn amau ei bod yn cael ei defnyddio'n dwyllodrus, yna mae gan y Cyngor y pŵer i atafaelu'r drwydded.

4.15 Ni fydd cerbydau sy'n fwy na 2.44 metr o uchder a 5.49 metr o hyd neu sydd â mwy nag wyth sedd, yn ogystal â sedd y gyrrwr, neu sy’n fwy na’r uchafswm màs, sef 3.5 tunnell, yn gymwys i gael trwydded parcio i breswylwyr ac ni ddylid arddangos trwydded ymwelwyr o fewn cynlluniau Mannau Parcio â Thrwydded i Breswylwyr dynodedig lle mae mannau wedi’u marcio. Fodd bynnag, mewn cynlluniau Mannau Parcio â Thrwydded i Breswylwyr dynodedig lle nad oes mannau wedi’u marcio, bydd carafanau modur a faniau gwersylla sy’n fwy na 2.44 metr o uchder a 5.49 metr o hyd, neu sy’n fwy na’r uchafswm màs, sef 3.5 tunnell, yn gymwys ar gyfer trwydded parcio i breswylwyr ar yr amod bod y cerbyd wedi’i gofrestru yn yr eiddo. NI chaniateir trwyddedau ymwelwyr ar gyfer cerbydau o’r fath yn yr ardaloedd hyn.

4.16 Mae’n rhaid arddangos pob trwydded yn glir a’i gosod ar y ffenestr flaen neu ar ddangosfwrdd y cerbyd, gan sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol yn weladwy i swyddog archwilio ar bob adeg (gweler yr eithriadau blaenorol a fanylir mewn cysylltiad ag APRhA).

4.17 Mae’n rhaid i unrhyw gerbyd sydd wedi’i barcio mewn man parcio ar gyfer deiliad trwydded parcio i breswylwyr yn unig sicrhau bod pob rhan o’r cerbyd o fewn cyfyngiadau’r man parcio.

4.18 Ni fydd trwydded barcio i breswylwyr ar unrhyw adeg yn difeio deiliad y drwydded rhag parcio'n gyfreithlon, heb ofal priodol a heb achosi rhwystr. Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddifrodi, dwyn neu golli unrhyw gerbyd a'i gynnwys tra'i fod wedi'i barcio mewn unrhyw Ardaloedd Parcio â Thrwydded neu Fannau Parcio â Thrwydded.

4.19 Caiff perchnogion bathodyn glas barcio mewn mannau parcio i breswylwyr am ddim mwy na 3 awr yn ystod oriau rheoledig. Rhaid arddangos y bathodyn glas a'r cloc amser, a rhaid cadw at yr holl amodau eraill sydd ynghlwm wrth ddefnyddio bathodyn glas.

**Datganiad:**

Bydd yr wybodaeth a roddir gennych yn cael ei phrosesu'n unol â Deddf Diogelu Data 2018 at y diben o gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol; fodd bynnag, bydd yn cael ei rhannu â Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer atal a chanfod twyll, a sefydliadau eraill pan fo hynny'n ofynnol gan y gyfraith.